



Ein cyf: JH-/4031/21
At: Cynghorau Tref a Chymuned
(Rhan 4 o Ddeddf Lles
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru))

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Gydweithwyr,

Heddiw, fel rhan o'r rhaglen Llunio Dyfodol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r set gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol Cymru o dan y saith nod llesiant, cyfres wedi'i diweddaru o ddangosyddion llesiant cenedlaethol, ac ail rifyn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru.

Yn fy natganiad i'r Senedd yn gynharach heddiw, amlinellais y rôl bwysig y gall y cyhoeddiadau hyn ei chwarae wrth lunio dyfodol Cymru. Gallant hefyd helpu i sefydlu dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ddyfnach yn ein ffyrdd o weithio ledled Cymru. Felly, roeddwn am fanteisio ar y cyfle i ysgrifennu at yr holl gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r cynghorau tref a chymuned hynny y mae dyletswydd llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn berthnasol iddynt ac sy'n rhan o deulu o sefydliadau sydd wedi'u grymuso i weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Llunio Dyfodol Cymru

Mae'r naw [carreg filltir genedlaethol](#) a osodwyd gerbron y Senedd heddiw yn cwmpasu meysydd y mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo iddynt, gan gynnwys: dileu'r bwloch cyflog ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050; defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050; sicrhau y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050; a chynyddu canran y plant sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach i fwy na 99% erbyn 2050. Mae cyhoeddi ein cerrig milltir cenedlaethol cyntaf yn rhoi cyfle o'r newydd i ysgogi gweithredu ar y cyd. Mae'n gyfle hefyd i fesur cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn nifer o feysydd allweddol.

Ochr yn ochr â'r cerrig milltir cenedlaethol, rydym wedi diweddaru ein [dangosyddion llesiant cenedlaethol](#), yr ydym yn eu defnyddio ar y cyd i fonitro cynnydd cenedlaethol tuag at y nodau llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau newydd ar gyfiawnder, teithio, costau mewn perthynas â thai, a chynhwysiant digidol – materion yr ydym nawr yn gwybod sy'n chwarae mwy o ran yn llesiant Cymru nag yr oeddent cyn pandemig COVID-19.

Heddiw hefyd, cyhoeddir rhifyn diweddaraf [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru](#). Diben yr adroddiad hwn yw helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru i roi gwell ystyriaeth i'r tymor hir. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd, mewn un lle hygyrch, wybodaeth am y tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar yr ymdrech i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru. Mae'r ail rifyn hwn o'r adroddiad yn canolbwyntio ar bedair tuedd fawr: pobl a phoblogaeth, anghydraddoldeb, iechyd a therfynau'r blaned, a thechnoleg. Roeddwn hefyd yn awyddus bod cynnwys yr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adroddiad yn cydnabod yr amgylchedd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswydd llesiant ynddo. Felly, mae adroddiad 2021 yn tynnu ynghyd wybodaeth sy'n benodol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan ganolbwyntio ar gyllid cyhoeddus, y galw ar y sector cyhoeddus a materion digidol. Mae'r adroddiad yn ategu adnoddau y mae cyrff cyhoeddus ac eraill wedi'u datblygu sy'n edrych yn fanwl ar dueddiadau penodol o ran polisïau, lleoedd neu boblogaethau penodol.

Mae paratoi'r adroddiad yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn heriol. Mae effeithiau'r pandemig, sy'n parhau ac sy'n dal i newid, ar dueddiadau hirdymor yn fyd-eang ac i Gymru yn parhau i fod yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Felly, ni fydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar effeithiau hirdymor y pandemig. Yn hytrach, byddwn yn diweddarau pecyn tystiolaeth yr adroddiad yn 2023 i ystyried rhagor o wybodaeth a data wrth iddynt ddod i'r amlwg.


Gyda'i gilydd, mae'r cyhoeddiadau hyn yn sicrhau bod ein saith nod llesiant yn parhau i fod yn berthnasol i fywydau pobl heddiw ac i'r heriau y gallwn eu hwynebu yn y dyfodol. Gwn fod llawer o gyrrff cyhoeddus yn cyfrannu at asesiadau o lesiant lleol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ochr yn ochr â delio â'r pandemig a'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Y daith o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi gweld cryn dipyn o graffu ac ystyriaeth o sut mae ein deddfwriaeth llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn sbarduno newid yn y sector cyhoeddus, ac yn ein symud yn nes at y nodau llesiant cenedlaethol cyfunol. Mae canfyddiadau adroddiadau diweddar gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cenedlaethol yn dangos dyhead cyffredin i ddeddfwriaeth'r ddeddfwriaeth i gefnogi newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y mae'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach yn gweithio drwy fframwaith llesiant sy'n adlewyrchu rhai o werthoedd craidd Cymru megis cyfiawnder amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol a thegwch rhwng y cenedlaethau. Mae [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ein [deg amcan llesiant](#), a fydd yn ein galluogi i wneud cyfraniad sylweddol at y saith nod llesiant yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am barhau i chwarae rhan hanfodol i roi'r dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar waith.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice